# Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Medi 2024

Diweddariad olaf: 19 Medi 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/mae-gofal-cymdeithasol-cymru-yn-darparu-gwasanaethau-effeithiol-a-chynaliadwy-o-ansawdd-uchel am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Fel sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol, mae gennym gyfrifoldeb i arwain drwy esiampl o ran sut rydyn yn gweithio.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i ni ddeall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Rydyn yn parhau i weithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau’n diwallu eu hanghenion sy'n newid. Rydyn yn defnyddio adborth i herio a llywio ein busnes, ein prosiectau a'n cynlluniau.

Fe wnaethom barhau i ddangos natur agored a thryloyw ein penderfyniadau (llywodraethu) yn y ffordd rydyn yn gweithio ac yn gwario arian cyhoeddus wrth i ni gyflwyno ein cynllun pum mlynedd.

Cawsom adroddiadau cadarnhaol gan Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol ar ein trefniadau llywodraethu, yn ogystal ag adborth cadarnhaol gan ein Gweinidog sy'n noddi a swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n gwaith i gefnogi'r sector.

Yn 2023 i 2024, fe wnaethom y canlynol:

- cyhoeddi ein hadroddiad effaith, yn dangos y cynnydd a wnaethom yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun strategol 2022 i 2027 pum mlynedd
- cynnal ymgyrch recriwtio helaeth gyda thîm penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru i chwilio am aelodau newydd o'r Bwrdd. Fe wnaethom recriwtio 11 aelod newydd o'r Bwrdd – bydd chwech yn dechrau ym mis Ebrill 2024 a bydd y pump arall yn dechrau ym mis Ebrill 2025
- recriwtio prif weithredwr newydd

- rhannu sut rydyn yn gweithio gyda safonau'r Gymraeg
- cyflwyno ein *dull marchnata a chyfathrebu mewnol* a'n *strategaeth ddigidol* er mwyn cefnogi sut rydym yn gweithio ac yn cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym eisiau sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn gydnaws â'n cynulleidfaoedd sy'n tyfu a bod ein cynnwys a'n platfformau yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio ac yn diwallu anghenion ein cynulleidfaoedd
- cynnal archwiliad sgiliau gyda'n staff er mwyn cefnogi ein cynllun hyfforddi, dysgu a datblygu staff tair blynedd
- cadw ein hachrediad ISO27001 a sicrhau achrediad Cyber Essentials
- datblygu ein *Cynllun gweithredu datgarboneiddio* - ers 2019, rydym wedi lleihau ein hôl troed carbon **44 y cant**

Roedd dros **500,000** o bobl wedi ymweld â'n gwefan.

Roedd gennym dros **7,000** o ddilynwyr ar X (Twitter), dros **5,000** o ddilynwyr ar Facebook a **2,000** o ddilynwyr ar LinkedIn.

## Ein staff

Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd gennym:

- **234** aelod o staff
- **44 o** weithwyr newydd
- trosiant staff o **5.5%**
- cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o **3.6%**

- cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o **1.3%**, os nad ydym yn cynnwys salwch hirdymor
- sgôr ymgysylltu â staff o **91.2%**
- **tystysgrif archwilio lân** sydd i'w gweld yn ein cyfrifon blynyddol